Gweld o Dan y Tonnau

Seeing Beneath the Waves

Arbenigedd Tîm Rhagchwilio'r Comisiwn Brenhinol yw defnyddio amrywiaeth o dechnolegau arolygu pell-synhwyro i adnabod a chofnodi henebion ar y tir ac o dan y dŵr. Mae'r technegau hyn yn cynnwys LiDAR, ffotograffiaeth loeren a ffotograffiaeth o'r awyr, magnetometreg a sonar ochr-sgan. Gall y Comisiwn Brenhinol hefyd ddarparu cyfleuster archifol ar gyfer y data sy'n cael eu casglu yn ystod ymchwil i'r amgylchedd hanesyddol gan gyrff eraill.

The Royal Commission's Reconnaissance Team specialises in promoting the application of various remote-sensing survey technologies for the identification and recording of historic monuments – on land and underwater. These techniques include LiDAR, satellite and aerial photography, as well as magnetometry and side-scan sonar. The Royal Commission also provides an archiving facility for data gathered during historic environment research by other organisations.



Cafodd y llun hwn o Ddociau Caerdydd o gasgliad Aerofilms y Comisiwn Brenhinol ei dynnu ar 1 Mai 1921. Mae'n dangos tair agerlong fawr gyda phont ganolog a oedd yn debyg i'r SAINT JACQUES.

This image of Cardiff Docks from the Royal Commission's Aerofilms collections was taken on 1 May 1921 and shows three large steamships with a central bridge similar to the configuration of the SAINT JACQUES.

Uchod: Mae rhai cliwiau yn y ddelwedd sonar ochr-sgan hon i'r math o gwch rydym ni'n edrych arno – gellir gweld hwylbren, a ddefnyddid hefyd mae'n debyg fel hwyl-lath i drosglwyddo cargo, yn gorwedd ar draws y llongddrylliad ac mae'n debyg mai gweddillion y corn mwg a'r bont yw'r twmpathau yn y canol. Credir mai llongddrylliad y SAINT JACQUES yw hwn, agerlong a oedd yn cludo glo o'r Barri i Tunisia pan gafodd ei suddo gan dorpido ar 15 Awst 1917.

Above: There are clues in this side-scan sonar image to the type of vessel we are looking at—a mast which probably doubled as a yard for cargo handling can be seen lying across the wreck and the mounds in the centre of the wreck are probably the remains of the funnel and bridge. This wreck is believed to be the SAINT JACQUES, a steamship carrying coal from Barry to Tunisia when it was torpedoed on 15 August 1917.



Mae maint y llongddrylliad yn awgrymu mai slŵp bren fach yw hon, fel yr un sydd i'w gweld yng nghanol y ffotograff hwn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r cei o dan Gastell Caernarfon.

The size of the wreck suggests a small wooden sloop, such as is shown in the centre of this nineteenth-century photograph of the quay under Caernarfon Castle.

Uchod: Daliwyd llygad geoffisegwr morol gan batrwm afreolaidd mewn tonnau tywod a darganfuwyd bod cwch pren bach wedi'i longddryllio yno. Cafodd y ddelwedd sonar ochr-sgan hon ei thynnu gan Wessex Archaeology yn ystod Prosiect Llongddrylliadau Glo a Llechi Cymru yn 2010 a gafodd ei ariannu gan Cadw.

Above: A disturbance in a patch of sand ripples caught the eye of a marine geophysicist and has since proved to be a small wooden wreck. This side-scan sonar image was captured by Wessex Archaeology undertaking the Cadw-funded Welsh Coal and Slate Shipwrecks Project in 2010.

Wrth dynnu ffotograffau o'r awyr, bydd y Comisiwn Brenhinol yn amseru rhai o'i hediadau i gyd-fynd â'r llanwau isaf ac mae wedi darganfod sawl llongddrylliad newydd. Credir mai'r JEUNE MARIE yw'r llong hon, a aeth ar lawr rhwng Caerfyrddin a Chydweli ar 18 Ionawr 1854 (NPRN 273608).

The Royal Commission times some of its aerial photographic flights to coincide with the lowest tides and have made several new wreck discoveries. This site is believed to be the JEUNE MARIE, which ran aground between Carmarthen and Kidwelly on 18 January 1854 (NPRN 273608).

Uchod: Mae'r model hwn, sydd yng nghasgliad yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol yn Greenwich, yn dangos brig hwylio Ffrengig nodweddiadol o hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tebyg i'r JEUNE MARIE. Delwedd drwy gwrteisi Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich, cyfeirnod F7858-001.

Above: This model in the collections of the National Maritime Museum, Greenwich, shows a typical French sailing brig from the latter half of the nineteenth century, similar to the JEUNE MARIE. Image courtesy of Royal Museums Greenwich, image ref F7858-001.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru
Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
Ffôn/ Telephone: 01970 621200

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
National Monuments Record of Wales
www.cbhc.gov.uk
www.rcahmw.gov.uk

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government